| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Tachwedd 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Ymgynghoriad ar y Gorchymyn Personau Dynodedig** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r ddogfen ymgynghori a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus mae'n ystyried eu cynnwys mewn gorchymyn yn nodi cyrff fel personau dynodedig y gellir eu craffu gan awdurdodau lleol o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am farn yr Aelodau ar y ddogfen ymgynghori gyda golwg ar baratoi ymateb ar ran y Cyngor i'r cynigion.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys y papur ymgynghori a rhoi barn ar yr ymateb i'w gyflwyno ar ran y Cyngor.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn rhoi'r pŵer cyfreithiol i Weinidogion Cymru 'ddynodi' darparwyr gwasanaeth cyhoeddus at ddibenion craffu awdurdodau lleol. Mewn geiriau eraill, mae'n ymestyn arferion craffu llywodraeth leol i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach (y sefydliadau hynny sy'n 'ddynodedig'). Mae'r darpariaethau yn y Mesur yn gosod dyletswydd newydd ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.

4.2 Nid pwrpas y ddyletswydd hon yw dyblygu systemau atebolrwydd sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r cyrff eraill hyn, ond yn hytrach, i ganolbwyntio ar feysydd lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd.

4.3 Efallai bod rhai o'r cyrff sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi eisoes yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn ein pwyllgorau craffu, e.e. y bwrdd iechyd lleol, ond nid yw'r gyfraith bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu'r awdurdod lleol i gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn ac nid oes unrhyw ffordd o orfodi cyrff cyhoeddus eraill i fynychu cyfarfodydd craffu.

4.4 O dan ddarpariaethau'r Mesur gellir gofyn i gyrff cyhoeddus sy'n cael eu dynodi mewn Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru i fod yn bresennol gerbron pwyllgor craffu sy’n ymwneud â materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu drigolion yr ardal, ac yn darparu gwybodaeth o’r fath i'r pwyllgor sy'n ofynnol yn rhesymol.

4.5 Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i faterion lle gall pwyllgor trosedd ac anhrefn lunio adroddiad neu wneud argymhellion.

4.6 Mae'r Mesur yn nodi y caiff pwyllgor craffu gyflwyno adroddiad ac argymhellion i berson dynodedig a gofyn iddynt ei gymryd i ystyriaeth.

4.7 Mae'r Mesur yn cynnwys meini prawf ar gyfer y cyrff hynny a all fod yn ddynodedig. Maent yn gyrff;

- sy’n darparu gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau o unrhyw ddisgrifiad i’r cyhoedd (neu ran o’r cyhoedd) (pa un ai am dâl ai peidio);
- sy’n darparu'r gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau wrth arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus; ac
- sy’n cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan arian cyhoeddus.
- nad ydynt yn awdurdod lleol (sy'n golygu cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol).

4.8 Mae'r ddogfen ymgynghori bresennol yn gofyn am farn awdurdodau lleol ar y cyrff y dylid eu dynodi at ddibenion y Mesur fel personau dynodedig. Mae Llywodraeth Cymru yn mynegi'r farn y dylid dynodi cyrff yn raddol ac yn awgrymu y dylai'r gorchymyn dynodi cyntaf gynnwys cyrff sy'n ofynnol iddynt o dan Adran 38 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 i gymryd rhan mewn cynllunio cymunedol trwy gynlluniau integredig sengl.

4.9 Yr effaith a fwriedir yw y bydd yn canolbwyntio ar graffu ar y cyfraniad a wneir gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol i gyflawni amcanion a rennir yn y cynllun integredig sengl.

4.10 Mae'r cyrff a awgrymir ar gyfer dynodi ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau GIG
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

4.11 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am farn ar pa un i gynnwys cynghorau tref a chymuned o ystyried eu rôl mewn cynllunio cymunedol.

4.12 Mae’r cyrff eraill, y mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar eu dynodi, yn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chyrff y trydydd sector sy'n cwrdd â'r meini prawf a nodir uchod.

4.13 Mae'r papur ymgynghori hefyd yn gofyn am farn ar pa un a oes yna gyrff eraill y dylid eu dynodi yn y gorchymyn cyntaf hwn neu mewn gorchmynion yn y dyfodol.

4.14 Mae'r papur ymgynghori ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn a'r ffurflen ymateb ynghlwm fel Atodiad 2.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd y gallu i ofyn i bersonau dynodedig fod yn bresennol gerbron pwyllgorau craffu a darparu gwybodaeth yn helpu i graffu ar yr agweddau hynny o'r blaenoriaethau corfforaethol sy'n dibynnu ar weithio mewn partneriaeth gyda chyrff ac asiantaethau cyhoeddus eraill.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd angen mwy o adnoddau i gefnogi craffu ar gyrff dynodedig os yw'r rhain yn mynd i fod yn ychwanegol at y llwyth gwaith craffu presennol.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Sgrinio ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb?**

7.1 Mae hon yn ddogfen ymgynghori. Ymgynghorwyd â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Mae'r adroddiad yn syml yn ymateb i ymgynghoriad ac, fel y cyfryw, nid oes goblygiadau ariannol mawr. Penderfynir ynglŷn â'r rhain unwaith y bydd y diwygiadau i'r cynllun yn cael eu cadarnhau.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Y risg o beidio ymateb i'r ymgynghoriad yw nad yw barn y Cyngor yn cael ei chymryd i ystyriaeth.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.